


## Arweiniad i Fynegai'r Cambrian Ar-lein

Mae'r arweiniad hwn yn cynnwys cefndir y prosiect, technegau chwilio uwch, sut i gyfuno'ch chwiliad â chronfa ddata *Papurau Newydd Cymru Ar-lein* a ffyrdd eraill o ddod o hyd i gopïau o erthyglau. Os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr arweiniad hwn, e-bostiwch [mynegai.cambrian@abertawe.gov.uk](mailto:mynegai.cambrian@abertawe.gov.uk).

### Cyflwyniad i Bapur Newydd y Cambrian a Mynegai'r Cambrian

#### Beth yw'r *Cambrian*?

Ar 28 Ionawr 1804, cyhoeddwyd y papur newydd cyntaf yng Nghymru, sef *The Cambrian*, a argraffwyd yng ngwasg ei adeilad yn Wind Street, Abertawe. Roedd wedi cynnwys newyddion, hysbysebion, hysbysiadau a thrafodaethau cymdeithasol lleol a cenedlaethol am 126 o flynyddoedd, a chyhoeddwyd ei rifyn wythnosol olaf ym mis Mawrth 1930 pan unodd â phapurau newydd eraill i fod yn *Herald of Wales*.



#### Beth yw Prosiect Mynegeio'r Cambrian?

Sefydlwyd Prosiect Mynegeio'r Cambrian yn Llyfrgell Ganolog Abertawe gyda'r bwriad o roi mynediad cyflym i ymchwilwyr at y cyfoeth o wybodaeth sydd ar dudalennau'r papurau newydd. Mae'r mynegai digidol a gafodd ei lansio ar-lein yn 2005, ac a grëwyd diolch i waith ymroddedig tîm o wirfoddolwyr, wedi cael ei ddefnyddio gan bobl o bob cwr o'r byd ac mae wedi bod yn gymorth chwilio pwysig i'r rheini sy'n ymchwilio i hanes De Cymru, haneswyr teuluol a myfyrwyr.

Mae'r Mynegai bellach yn cynnwys tua 750,000 o gofnodion. Mae'r cofnodion hyn yn ymwneud â phobl sy'n gysylltiedig â digwyddiadau a ddigwyddodd mewn ardal a gynrychiolir yn fras gan hen sir Gorllewin Morgannwg a'i phrif ganolfannau poblogaeth yn Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot. Mae hyn yn golygu nad yw'r Mynegai'n ddefnyddiol ar gyfer newyddion cenedlaethol, ac eithrio lle mae wedi cael effaith leol. Nid yw'r polisi hwn yn berthnasol i golofnau genedigaethau, priodasau a marwolaethau'r papur newydd gan eu bod wedi'u tynnu a'u mynegeio, ni waeth beth fo'u lleoliad.

Mae'r cyfnod a gwmpesir yn gynhwysfawr gan gronfa ddata'r Mynegai ar hyn o bryd o fis Ionawr 1804 (pan ddechreuodd y papur newydd), i 1883 ac mae cofnodion newydd yn cael eu hychwanegu'n gyson. Mae'r broses o echdynnu a mewnbynnu gwerth blwyddyn o erthyglau papur newydd â llaw, a hynny gan ein gwirfoddolwyr medrus, yn cymryd amser hir, felly bydd y blynyddoedd a gwmpesir yn cymryd peth amser i gynyddu. Fe welwch rai erthyglau newyddion wedi'u mynegeio o *The Cambrian* a phapurau eraill am gyfnodau diweddarach, ond nid yw'r

rhain wedi'u hychwanegu'n systematig. Cafodd cofnodion genedigaethau, priodasau a marwolaethau eu mynegeo'n gynhwysfawr hyd at 1914, gyda rhai cofnodion diweddarach o'r 1920au a'r 1930au.

Caiff erthyglau eu mynegeo yn ôl pwnc a'u trefnu yn ôl prif grwpiau Trafnidiaeth, Llongau, Trychinebau a Damweiniau, Cynllunio a Rheoli Tir, Adeiladau, Amaethyddiaeth, Diwydiant, Addysg, Iechyd a Lles, Crefydd, Gwleidyddiaeth, Troseddu, Diwylliant a'r Celfyddydau, Chwaraeon a Hamdden a Lluoedd mewn Lifrai. Gallwch ddefnyddio'r opsiwn chwilio i chwilio dan y penawdau pwnc hyn.



Wind Street, Abertawe, hen leoliad swyddfeydd *The Cambrian*.

## Papurau newydd eraill

Daw mwyafrif llethol y cofnodion mynegai sydd wedi'u tynnu o *The Cambrian*. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau parhad a gwella mynediad at bapurau newydd lleol eraill, mae'r gwaith o echdynnu cofnodion genedigaethau, priodasau a marwolaethau wedi'i barhau'n systematig ar gyfer *The South Wales Daily Post*, papur newydd dyddiol pwysig a sefydlwyd yn Abertawe ym 1893, sy'n parhau heddiw fel *The South Wales Evening Post*. Roedd *The South Wales Daily Post* yn fwy poblogaidd na *The Cambrian*.

Mae'r Mynegai hefyd yn cynnwys miloedd lawer o gofnodion sy'n ymwneud â phobl a digwyddiadau yn ardaloedd Abertawe, Gŵyr, Castell-nedd a Phort Talbot sydd wedi'u tynnu o *The Western Mail*, sydd bellach yn bapur newydd cenedlaethol Cymru. Mae'r cofnodion hyn yn ymwneud â nifer o erthyglau o tua throad yr ugeinfed ganrif ac maent wedi'u hymgorffori yng nghronfa ddata Mynegai'r *Cambrian* fel cymorth chwilio cyfyngedig. Cofiwch fod rhai o'r cofnodion hyn yn dod o rifyn Abertawe o *The Western Mail* felly efallai na fyddwch yn dod o hyd iddynt mewn fersiynau microffilm neu ar-lein o'r *Western Mail*. Os felly, gwiriwch bapur Abertawe o'r un dyddiad a dylech ddod o hyd i erthygl debyg.

---

## Sut i ddefnyddio Mynegai'r *Cambrian* Ar-lein

Gellir chwilio yng nghronfa ddata Mynegai'r *Cambrian* yn [www.swansea.gov.uk/cambrian](http://www.swansea.gov.uk/cambrian) am unrhyw air, enw personol neu le.

Gellir ei defnyddio hefyd i nodi mathau o ddigwyddiadau neu adroddiadau am ddigwyddiadau e.e. damweiniau glofaol,

### Cambrian Index Online

Search Text

Exact Phrase  All words  Any words

From Index

From Journal

Where dates between  and   
(Dates should be of the form dd/mm/yyyy)

methdaliadau, cyfarfodydd cymdeithasau, agor adeiladau, adroddiadau troseddu etc. Dyma rai awgrymiadau ar gyfer chwilio:-

- Mae'r blwch "Chwilio am destun" yn gofyn am gofnod ym mhob achos. Nodwch y cyfenw / enw'r lle / y pwnc y mae ei angen arnoch.
- Yn achos chwiliad cyfenw, efallai yr hoffech hefyd roi enw cyntaf yr unigolyn, er mwyn culhau canlyniadau'r chwiliad. Cofiwch, fodd bynnag, y gall enwau cyntaf a chyfenwau gael eu sillafu mewn sawl ffordd wahanol, rhywbeth a oedd yn eithaf cyffredin yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a bydd angen chwilio am bob un i fod yn siŵr eich bod yn dod o hyd i'r cofnodion cywir e.e. Rees / Rhys / Reece fel enw cyntaf, ynghyd â'r cyfenw Bevan neu Beavan! Gall enwau cyntaf ymddangos yn y Mynegai hefyd ar ffurf dalfyredig neu fel llythyren flaen. Y canlynol yw'r byrfoddau mwyaf cyffredin, ond nid dyma'r unig rai:-

Edward - Edw., Elizabeth - Eliz., John - Jno., Thomas - Thos., William - Wm. neu Willie

- Nid yw enwau lleoedd yn gyson o ran eu sillafiad chwaith. Mae hyn yn adlewyrchu'r amrywiaeth o sillafiadau sy'n ymddangos yn y papur newydd, wedi'u copïo'n ffyddlon i'r gronfa ddata gan staff y prosiect. Mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys:-

Hafod a Havod, (L)langyfelach, (L)langafelach, (L)langyvelach, (L)langavelach a llawer o bermutations eraill, Llansawel, Llansawel, Ystradgynlais, Ystradgunlais

Mewn geiriau eraill, os na allwch ddod o hyd i gofnod ar y dechrau, rhowch gynnig ar sillafiad gwahanol!

- **Union Ymadrodd** - fel y mae'n awgrymu, bydd hyn yn dangos canlyniadau'n union fel y mae'r chwiliad wedi'i fewnbynnu, gan gynnwys atalnodi e.e. Eliz. Jones, Edw. Thomas.
- **Pob gair** - gellir defnyddio hwn lle bydd cyfuniad o eiriau yn darparu'r canlyniadau gorau e.e. Williams Castell-nedd (yn osgoi'r lluo o geisiadau a geir yn anochel ar gyfer enw cyffredin fel Williams ac, o bosib, yn ddefnyddiol lle mae lleoliad teulu yn hysbys). Bydd y geiriau'n ymddangos yn yr un cofnod, ond nid gyda'i gilydd o reidrwydd.
- **Unrhyw Eiriau** - bydd defnyddio hyn yn nodi cofnodion ar gyfer 2 neu fwy o eiriau chwilio gwahanol, mewn cofnodion Mynegai ar wahân oni bai fod y geiriau y chwilir amdanynt yn ymddangos yn yr un cofnod beth bynnag. Gellir defnyddio hyn ar gyfer sillafiadau gwahanol o'r un gair e.e. sillafiadau amrywiol ar gyfer Llangyfelach.
- - **Blwch "O'r mynegai"** - **Penawdau pwnc** - wrth chwilio am fath penodol o ddigwyddiad, yn enwedig lle y gallech ddymuno gweld y canlyniadau mewn rhestr gronolegol, e.e. rhestr o ddamweiniau rheilffordd, adroddiadau am fathau o droseddau neu restr o gofnodion sy'n ymwneud â rasio ceffylau, mae angen defnyddio'r blwch "O'r mynegai" o'r gwymplen. Mae'r rhestr yn darparu penawdau pwnc eang i ddewis ohonynt. Dewiswch bwnc o'r rhestr, yna mewnosodwch y math o ddigwyddiad yn y blwch "Chwilio am destun".

Bydd yr enghreifftiau a grybwyllir yma, heb gyfyngu ar y dyddiadau, yn dod o hyd i gannoedd o gofnodion gan ddefnyddio'r cyfuniad o "Drychinebau a Damweiniau" gyda'r gair "rheilffordd", yn ogystal â chyfuniad o "Chwaraeon a Hamdden" gyda'r geiriau "rasio ceffylau". Bydd mewnosod dyddiadau'n amlwg yn dylanwadu ar nifer y cofnodion a ganfuwyd. Gan ddefnyddio'r dull chwilio hwn, byddai'n ddoeth defnyddio ffurfiau unigol a lluosog y gair wrth chwilio e.e. llyfrgell a llyfrgelloedd, theatr a theatrau yn y blwch "Chwilio am destun".

- **Amrediad dyddiad** – Defnyddiwch y fformat dd/mm/bbbb er enghraifft bydd 06/08/1864 yn chwilio o 6 Awst 1864 ymlaen. Mae cofnodion genedigaethau, priodasau a marwolaethau cynhwysfawr (gan gynnwys y rhai a dynnwyd o *The South Wales Daily Post*) yn mynd o 1804 i 1914. Erbyn 2021, ymestynnodd mynegeio erthyglau manwl yn *The Cambrian* o 1804 i 1883 er bod nifer o geisiadau diweddarach y dylid eu trin fel rhai "bonws".

## Canlyniadau chwilio

Journal	Catalogue Index	Index Description	Journal date	Text
Cambrian	C40	DEATHS, WILLS, ESTATES, ETC.	11 November 1859	AUCTION: VALUABLE LIBRARY OF THE LATE SIR. JOHN MORRIS, BART., SKETTY PARK, SWANSEA. P4
Cambrian	R42	CULTURE AND THE ARTS AND SCIENCE, BUILDINGS, LIBRARIES AND INSTITUTIONS	11 November 1859	P4. LIBRARY OF THE LATE SIR JOHN MORRIS FOR AUCTION AT CASTLE ST., SWANSEA, BY GLOVER & SON
Cambrian	R44	CULTURE AND THE ARTS AND SCIENCE, BUILDINGS, AUCTIONS AND SALES	11 November 1859	P4. LIBRARY OF THE LATE SIR JOHN MORRIS, BART. - AUCTION, 28 CASTLE ST., SWANSEA BY GLOVER & SON
Cambrian	C40	DEATHS, WILLS, ESTATES, ETC.	06 April 1860	FURNITURE, LIBRARY ETC. AT PANTYGWIDYR HOUSE FOR SALE - CAPT. TENNANTS ESTATE. P4
Cambrian	R42	CULTURE AND THE ARTS AND SCIENCE, BUILDINGS, LIBRARIES AND INSTITUTIONS	06 April 1860	MISS JENKINS CIRCULATING LIBRARY, 24 WIND ST., SWANSEA. P4

Fel y gwelwch o'r canlyniadau enghreifftiol hyn uchod, mae cofnodion y Mynegai yn rhoi crynodeb bras o'r erthygl papur newydd wreiddiol, gan gynnwys yr wybodaeth bwysicaf, fel enw a phwnc. Roedd penawdau eraill yn rhoi'r dyddiad yr ymddangosodd yr erthygl a'r papur newydd yr ymddangosodd ynddo. Mae'r rhestr codau ar gyfer y **Mynegai Catalog**, e.e. C40, yn cael ei defnyddio at ddibenion gweinyddol. Mae'n cyfateb i'r **Disgrifiad Mynegai** a ddefnyddir ar gyfer trefnu cofnodion yn ôl pynciau.

Efallai y dewch chi o hyd i'r un erthygl fwy nag unwaith yn y Mynegai gan y gallai fod wedi'i mynegeio o dan **Ddisgrifiadau Mynegai** lluosog.

Mae gan rai cofnodion yn y mynegai rif tudalen y papur newydd y gellir dod o hyd i'r erthygl arno a all ymddangos naill ai ar ddechrau neu ar ddiwedd y cofnod. Nid yw rhif y dudalen fel arfer wedi'i gynnwys mewn cofnodion Mynegai genedigaethau, priodasau a marwolaethau gan fod y cyhoeddiadau hyn yn ymddangos yn bennaf ar dudalen olaf y papur newydd.

# Defnyddio'ch canlyniadau

## Fersiwn ddigidol o *The Cambrian* ym *Mhapurau Newydd Cymru Ar-lein*

Mae'r *Cambrian* wedi'i ddigideiddio fel rhan o brosiect mawr Llyfrgell Genedlaethol Cymru Papurau Newydd Cymru Ar-lein [ [newspapers.library.wales/](http://newspapers.library.wales/) ] sy'n rhad ac am ddim i unrhyw un ei ddefnyddio. Mae'r fersiwn ddigidol hon yn darparu atgynhyrchiad ar-lein llawn o'r papur newydd ynghyd â chyfleuster chwilio sy'n seiliedig ar adnabod nodau optegol.

Cafodd y papur newydd ei ddigido o gasgliad y Llyfrgell Genedlaethol o *The Cambrian* ac mae'n cwmpasu'n bennaf y cyfnod 1804-1846, 1870-1910. Mae rhai papurau newydd unigol o'r cyfnod amser hwn hefyd ar goll o *Bapurau Newydd Cymru Ar-lein*.

Gallwch ddefnyddio *Mynegai'r Cambrian* i ddod o hyd i gofnod ac yna naill ai pori yn ôl dyddiad neu ddefnyddio'r nodwedd chwilio i gyrraedd yr erthygl berthnasol ar *Bapurau Newydd Cymru Ar-lein*. Mae rhai gwahaniaethau pwysig i'w cadw mewn cof rhwng y ddau adnodd:

- Gan nad yw'r gydnabyddiaeth nodau optegol a ddefnyddir yn y digideiddio'n berffaith, efallai y gwelwch fod chwiliad ar *Bapurau Newydd Cymru Ar-lein* yn colli rhywbeth a drawsgrifiwyd yn gywir gan ein mynegeiwyr gwirfoddol o *Fynegai'r Cambrian Ar-lein* ac i'r gwrthwyneb. Mae chwiliadau prawf sy'n cymharu canlyniadau rhwng y ddau adnodd wedi canfod nifer o anghysondebau yng nghanlyniadau chwilio Papurau Newydd Cymru Ar-lein o'i gymharu â chanlyniadau'r *Mynegai*.
- Cofiwch y defnyddiwyd **Penawdau Pwnc** hefyd wrth greu *Mynegai'r Cambrian* sy'n rhoi ffordd ychwanegol o chwilio.
- Mae'r fersiwn ddigidol yn ymdrin â'r testun o'r papur cyfan tra bod *Mynegai'r Cambrian* yn canolbwyntio ar erthyglau sy'n ymwneud ag Abertawe a Gŵyr.
- Mae hefyd yn bwysig cofio bod *Mynegai'r Cambrian Ar-lein* yn cwmpasu'r cyfnod sylweddol o 23 mlynedd rhwng 1847 a 1869 nad yw wedi'i gynnwys o gwbl ym *Mhapurau Newydd Cymru Ar-lein*. Mae ein casgliad o ficroffilmiau *Cambrian* yn y Llyfrgell Ganolog yn cynnwys llawer o'r bylchau sy'n bodoli yn y fersiwn ddigidol a gallwn ddarparu copiâu o'r ffilmiau hyn i gwsmeriaid. [Gweler isod am fanylion.]

---

## Microffilm yn Llyfrgelloedd Abertawe

Gellir gweld y papurau newydd gwreiddiol ar ficroffilm yn [Llyfrgell Ganolog Abertawe](#) a gallwch greu copi digidol neu argraffedig ohonynt. Mae'n ddoeth archebu darllynydd/argraffydd bob amser drwy ffonio 01792 636464.

I gael rhagor o wybodaeth am ddefnyddio'r microffilm, y weithdrefn archebu, a'n daliadau papur newydd, ewch i daflen ffeithiau'r **Papur Newydd** ar ein gwefan.

---

## Ystorfeydd eraill y mae ganddynt fynediad at *The Cambrian*

Mae'n ddoeth cysylltu â phob ystorfa ymlaen llaw i gadarnhau mynediad at bapurau newydd neu ficroffilm, amserau agor, archebu darlennyddion/argraffyddion, manylion taliadau etc. cyn ymweld.

Mae ffeiliau *The Cambrian*, *The South Wales Daily Post* a *The Western Mail* hefyd yn cael eu cadw yn:

**Y Llyfrgell Brydeinig**, 96 Euston Road, Llundain NW1 2DB.

<http://www.bl.uk/reshelp/findhelprestype/news/index.html>

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru**, Aberystwyth, Ceredigion, Cymru SY23 3BU

<http://www.llgc.org.uk/>

Microffilm *The Cambrian* (hyd at 1893):

**Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg**, Canolfan Ddinesig, Oystermouth Road, Abertawe SA1 3SN,

<https://www.abertawe.gov.uk/archifaugorllewinmorgannwg>

**Llyfrgell Gyfeirio Castell-nedd**, Gerddi Fictoria, Castell-nedd SA11 3BA,

e-bost: [Neath.library@neath-porttalbot.gov.uk](mailto:Neath.library@neath-porttalbot.gov.uk)

---

Ar gyfer cwsmeriaid nad ydynt yn gallu ymweld â Llyfrgell Ganolog Abertawe neu ystorfa arall eu hunain, bydd staff Llyfrgell Abertawe yn gallu gwneud archebion cyfyngedig, gan gyflenwi naill ai copïau digidol drwy e-bost neu lungopïau printiedig drwy'r post (hyd at 20 copi).

Nodwch y cofnodion yr hoffech i ni eu llungopïo ac e-bostiwch [cambrian.index@abertawe.gov.uk](mailto:cambrian.index@abertawe.gov.uk) gyda'r manylion neu i ofyn am unrhyw wybodaeth bellach. Dywedwch wrthym hefyd eich cyfeiriad post llawn fel y gallwn gyfrifo'r tâl cywir ar gyfer postio copi caled. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am y gost gyffredinol a sut i fwrw ymlaen â hyn. Mae'n werth cofio y gall un erthygl hir mewn papur newydd gynhyrchu sawl llungopi. Ymdrinnir ag ymholiadau mewn trefn gronolegol lem yn ôl y dyddiad y'u derbyniwyd. Byddwn yn gwneud ein gorau glas i gyflawni'r cais o fewn y raddfa amser a nodir yn ein Siarter Cwsmeriaid h.y. 10 niwrnod gwaith, ac yn anfon llungopïau ymlaen yn ddigidol neu drwy'r post, yn fyd-eang.

---

